

29/08/2017

Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r dyfodol: BGC Bro Morgannwg

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg a swyddogion cynorthwyol,

Diolch am ofyn am fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion llesiant drafft fel y maent ar hyn o bryd, sef:

- Galluogi pobl i ymglyfrannu, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a llunio gwasanaethau cyhoeddus.
- Mynd i'r afael ag amddifadedd a lleihau tlodi.
- Rhoi cychwyn gorau mewn bywyd i blant.
- Amddiffyn, gwella a gwerthfawrogi'n hamgylchedd.

Drwy siarad yn aml â chi mae fy nhîm wedi ennill dealltwriaeth o'r ffordd yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC); y dull yr ydych wedi ei fabwysiadu ar gyfer cynllunio llesiant a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion a chymryd camau mewn dull gwahanol. Fel y byddant eisoes wedi ei drafod gyda chi, roeddwn yn awyddus i fy ngwaith fod yn ddefnyddiol i chi, a'r cyd-destun yr ydych yn gweithio o'i fewn, felly gobeithio eich bod yn teimlo bod y cysylltu hwn wedi bod o fudd i chi a'i fod wedi rhoi rhyw arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Roeddwn hefyd yn dymuno i fy ymateb i'ch asesiad llesiant fod yn un sy'n edrych i'r dyfodol yn hytrach nag edrych yn ôl, i'ch helpu i ystyried sut i fynd ati i asesu'n barhaus a chynllunio llesiant. Yn ddiweddar cyhoeddais ['Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'](#) sy'n amlgu canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer BGCau ar feysydd allweddol lle mae angen newid ar gyfer gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rwy'n defnyddio'r adroddiadau hyn ar gyfer darparu fy nghyngor i chi.

Fel y gwyddoch, wrth bennu amcanion drafft a chymryd camau i'w diwallu, rhaid i FGCau ddefnyddio'r pum dull o weithio i herio busnes-fel-arfer a maccsimeiddio eu cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol. Bwriad fy nghyngor yw eich helpu i ystyried sut y gallech wneud hyn yn effeithiol a sut y gallech ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio i lunio eich camau.

Felly, mae fy nghyngor i chi'n ymwneud â mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio ac yn benodol â'r pynciau yr ydych wedi eu nodi yn yr asesiad fel rhai i ganolbwyntio arnynt, ynghyd ag ymroi i'ch cysylltu ag eraill a allai eich helpu. Fel yr eglurodd fy nhîm, nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol.

Mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT

cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT

contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales

Ar gyfer pob un o'ch camau a'ch amcanion drafft, hoffwn ddeall beth a olyga hyn i Fro Morgannwg a sut mae hyn yn wahanol i'r hyn yr ydych wedi ei wneud yn y gorffennol. Mae gwireddu uchelgeisiau'r Ddeddf hon yn ymwneud â 'beth', a 'sut' h.y. beth ydych chi'n ei wneud i gyfrannu at ein cydweledigaeth o'r saith nod llesiant cenedlaethol, sy'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy yn cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi yr ydym yn gweithio ynddo, y gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau yr ydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywyd? Sut ydych chi'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio eich gweithgareddau ar gyfer Bro Morgannwg?

Nid busnes-fel-arfer yw pennu amcanion a chmau. Yn y gorffennol, rydym wedi pennu themâu a blaenoriaethau ac wedi ysgrifennu cynlluniau sy'n dangos beth yr ydym yn ei wneud p'run bynnag. Hyd yn oed yn awr, er gwaethaf y ffaith bod y dystiolaeth yn yr asesiadau'n dangos ystod o dueddiadau brawychus, ymddengys bod BGCau yn ymgysylltu'n unig â thiriogaeth ddiogel nad yw'n ennyn dadl. I addasu eich dulliau o weithio mae'n ofynnol i fabwysiadu ymagwedd gwbl wahanol ac mae angen i chi roi amser a gofod i chi eich hunain i gwestiynu a yw'r ymagweddau presennol tuag at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac archwilio pwysau allweddol a thensiynau sy'n codi wrth gyflawni pob un o'ch amcanion.

Yn ymarferol buaswn yn awgrymu bod angen i chi, ar gyfer pob un o'r amcanion, ddefnyddio cyfarfod BGC neu drefnu sesiynau i edrych ar y pum dull o weithio isod a chael trafodaeth onest am y tensiynau rhwng y materion polisi ac arfer presennol o fewn eich sefydliadau mewn perthynas â phob un o'r amcanion. Dylai hyn wedyn sbarduno eich trafodaethau ar sut y gallwch fabwysiadu ymagweddau newydd gyda'ch gilydd tuag at y camau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion a macsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol.

Rwyf o'r farn bod angen i chi ddangos sut mae eich BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:

- **Hirdymor:** Beth yw eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor, cyfleoedd, peryglon a senarios tebygol ar gyfer y mater hwn? Oes yna fylchau ar hyn o bryd yn eich data neu eich dealltwriaeth? Beth sydd angen ei weld ymlaen llaw neu pa wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch i ddeall y mater yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd gennych i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? Mae fy nhîm yn gweithio gydag eraill i adeiladu gallu yn y maes hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol', sydd ar gael drwy Objective Connect a thrwy gysylltu â David Thomas.
- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn ceisio ei atal? Beth sydd wrth wraidd y mater a phryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd?

Ydych chi'n glir am ba fath o atal sydd ei angen: atal sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth rhag digwydd; atal eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu atal trydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth â ganddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed feicio (atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adferol os yr ydynt wedi syrthio oddi ar eu beic (atal eilaidd, sef atal niwed rhag gwaethygu) a chwmsela yn dilyn y ddamwain (atal trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).



Mae llawer o FGCau heb ddefnyddio'u hasesiadau i ddeall yn llwyr y sefyllfa bresennol a hefyd raddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Mae yna negeseuon pendant yn y data ag arnynt angen rhagor o ymchwil a gwell dealltwriaeth o achosion ac effeithiau materion allweddol a thueddiadau i drwytho eich camau.

- **Cydweithio:** Mae'n bwysig fod pobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn medru dwyn gyda nhe yr ystod orau o fewnwelediadau, heriau adeiladol, data a datrysiadau i'r BGC. A yw'r bobl iawn gennych o gwmpas y bwrdd, ar y lefel iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau am y mater hwn? Pwy arall allai fod arnoch ei angen i gydweithio gyda chi i'ch helpu i ddeall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ar yr Asesiadau Llesiant, mae hwn yn amser da i adolygu aelodaeth wahoddedig y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y gall y bydd angen i chi weithio gyda nhw i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn?

Wrth gyflawni'r camau, sut allai eich sefydliadau gydweithio? Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen i chi eu cymryd gyda'ch gilydd ac ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cwrdd â'ch amcanion yn fwy effeithiol. Gallai hyn gynnwys cyd-leoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau a chrynhoi adnoddau.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o'r arfer o ddim ond gwneud rhywbeth sy'n cwrdd â'r amcan, ac yn hytrach, ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n maximeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Yn hytrach nag edrych ar y mater mewn dull traddodiadol, cyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau i ehangu eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch nodau? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad a wneir gan eich sefydliad ar hyn o bryd i'r amcan hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad sydd angen i chi ei wneud i ddwyn yr amcan hwn yn ei flaen?
- **Ymgyfraniad:** Sut ydych chi'n mynd i ddangos y modd yr ydych wedi ennyn ymgyfraniad cymunedau wrth ddiffinio'r heriau a'r cyfleoedd wrth gwrdd â'r amcan hwn? Sut ydych chi'n gweithredu i ddod o hyd i well dulliau o ennyn ymgyfraniad pobl yn y broses benderfynu? Sut fedrwyd chi gydweithio gydag aelodau o'r gymuned wrth gwrdd â'r camau hyn? Megis gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru pa ddewisiadau sydd yna ar gyfer ennyn ymgyfraniad pobl â phrofiadau bywyd ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Dylid derbyn y cyngor hwn gan bob BGC, ond rwy'n gwerthfawrogi bod pob BGC wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o ddrafftio'u hamcanion Llesiant. Fel y cyfryw, roedd gen i ddiddordeb i glywed bod cynrychiolwyr eich lechyd Cyhoeddus wedi cychwyn ymarfer gyda'r BGC, gyda'r diben o 'hunanasesu' polisi sefydliad, arweinyddiaeth/llywodraethu, gweithgareddau/gwasanaethau, adnoddau ac effaith/monitro ar y pedwar amcan lefel uchaf cychwynnol. Rwy'n gwerthfawrogi mai dim ond rhan o'r gwaith yr ydych wedi ei wneud hyd yn hyn yw sefydlu amcanion a chamau drafft, ond rwyf wedi ceisio cysylltu â BGCau eraill (Powys a Sir Fynwy er enghraifft) gyda'r ymagwedd hon, gan eu bod hwythau'n cynllunio i wneud yr un peth. Os ydych o'r farn bod yr ymarfer hwn yn ddefnyddiol, buaswn yn annog y BGC i barhau i fyfyrto ar eu cyfraniadau i'r amcanion a'r camau fel rhan o asesiad Llesiant parhaus.

Fel BGC, mae'n bwysig eich bod yn deall bwriadau eich gilydd ac yn teimlo bod y cynllun llesiant yn adlewyrchu eich cydweledigaeth o ddyfodol Bro Morgannwg. Roeddwn yn falch i glywed bod rhai aelodau wedi cymryd eu cyfrifoldeb fel aelodau'r BGC o ddifri a'u bod yn ceisio meithrin diwylliant cydweithredol. Mewn rhai BGCau, maent wedi gwneud hyn drwy roi i'w haelodau amcanion i'w harwain, ac rwyf yn eich cyngori chithau i'w ystyried fel dewis. Fel y cyfryw, mae cadw'r un aelodau, wrth i chi geisio gymryd camau gyda'ch gilydd i gwrdd â'r amcanion hyn, yn hollbwysig.

Er mwyn ennill y ddealltwriaeth gyffredinol hon a pharch tuag at broffesiynau eich gilydd, mewn rhai meysydd, mae cyfarfodydd BGCau yn awr yn cael eu rhedeg fel sesiynau gweithdai BGCau, sy'n digwydd ym mhob un o weithleoedd sefydliadau aelodau neu mewn man perthnasol i'r pwnc sy'n cael ei drafod. Mae'n gredyd i'ch swyddogion cynorthwyol, ac rwyf yn hapus i glywed eich bod wedi cychwyn mabwysiadu'r dull hwn o gwrdd, a buaswn yn eich annog i archwilio pob dewis sy'n hwyluso gwell dealltwriaeth o waith eich gilydd a'r cyfleodd ar gyfer gwell integreiddio a chydweithio.

Mae'r arweinyddiaeth hon a chyd-ddealltwriaeth mewn BGCau yn treiddio i sefydliadau sy'n aelodau ar bob lefel. Rwyf yn awyddus i ddeall sut y caiff BGCau eu cynorthwyo ar draws Cymru a'r effaith a gaiff hyn ar gynllunio llesiant. Er nad yw'n fodel sydd o reidrwydd yn 'dal dŵr', lle mae cymorth ar lefel aml-asiantaeth, mae hyn yn galluogi gwell defnydd o adnoddau gan FGCau ac, yn ddiethriad, yn caniatáu ar gyfer integreiddio haws rhwng sefydliadau, adrannau a materion. Er bod gweld eich tîm cymorth yn gweithio'n agos gyda swyddogion mewn sefydliadau eraill yn beth calonogol, a'u bod wedi sefydlu grŵp golygyddol i weithio ar y cynllun, er mwyn perchenogi'r cynllun yng ngwir ystyr y gair, a sicrhau bod y camau yr ydych yn eu cymryd yn cael eu deall a'u gweithredu gan gyrff sy'n aelodau o'r BGC, efallai y buasech yn dymuno ystyried trefniadau ar gyfer gweithio'n agosach neu secondiadau mwy ffurfiol a chyd-leoli.

Fel y nodir uchod, dylech hefyd ystyried sut i ennyn ymgyfraniad 'pobl anarferol' a'r bobl yr ydych yn eu gwasanaethu drwy eich gwaith er mwyn ennill darlun llawer cyfoethocach o'r camau effeithiol y gallech eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion drafft. Ar draws Cymru, mae'n bwysig ein bod yn rhoi'r gorau i edrych ar FGCau fel pwyllgorau sy'n cael eu rheoli gan awdurdod lleol, gan fanteisio, yn hytrach, ar y cyfle i gyflwyno gwasanaethau sy'n wedi eu gwreiddio yn realiti bywyd pobl, a fydd o fantais i lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi, fel pobl mewn swyddi arweinyddiaeth, i chwarae eich rhan yn y gwaith o helpu i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen. Gobeithio y byddwch yn parhau i arwain ymagwedd seiliedig ar ddeallusrwydd wrth i chi ddod o hyd i ddatrysiadau gwahanol i'r modd arferol o wneud pethau.

Cyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

Byddwch yn ymwybodol bod eich amcanion drafft yn eu hanfod yn gysylltiedig â'i gilydd. Byddwch yn medru cymryd camau a fydd yn cael effaith cadarnhaol ar fwy nag un amcan. Er enghraifft, bydd galluogi pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau lleol yn debygol o gael effaith cadarnhaol ar amddiffyn a gwella eich amgylchedd. Bydd mynd i'r afael ag anghyfartaledd a lleihau tldi'n helpu i roi cychwyn gorau i blant mewn bywyd. Rwy'n falch i weld o'r pecynnau gwybodaeth a gyflenwyd ar gyfer pob amcan eich bod eisoes yn ystyried hyn. Buaswn yn eich

cyngori i chwilio am gymaint â phosibl o gyfleoedd, fel sefydliadau, i annog hyn i ddigwydd ac adlewyrchu hyn yn y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i alluogi eich gwasanaethau i gael eu hintegreiddio'n well.

[Galluogi pobl i ymgysylltu, cyfranogi yn eu cymunedau lleol a llunio gwasanaethau lleol.](#)

Fel ardal â lefelau uchel o wirfoddoli mae'n galonogol i weld eich bod yn adeiladu ar yr ased hwn ac wedi nodi hwn fel cyfle ehangach i wella llesiant. Rwyf yn awyddus i ddeall y rhesymeg sydd wrth wraidd y camau y penderfynasoch eu cymryd ar y cyd i gwrdd â'r amcan hwn a sut yr ydych yn defnyddio'r pum dull o weithio i lunio'r camau hyn. Er enghraifft, mae'n amlwg eich bod yn ystyried sut i ennyn ymgysylltiad ac ymgysylltiad pobl ar hyn o bryd, ond beth yw eich syniadau am y modd y gallai pobl gyfathrebu yn y dyfodol? Pa fath o newidiadau y gellid bod angen eu gwneud i systemau sefydliadol a pholisïau i alluogi pobl i gyfranogi ymhellach mewn cymunedau a llunio gwasanaethau lleol? Ar hyn o bryd, dengys ymchwil bod plant rhwng 5 a 16 mlwydd oed yn gwario, ar gyfartaledd, chwe awr a hanner o flaen sgrîn; [28% o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel eu prif ffynhonnell newyddion](#); 43% o bobl a anwyd rhwng 1980 a dechrau'r 2000au yn cael eu gyrru i wneud cyfraniadau ariannol drwy sianelau cymdeithasol; [ac yn ôl arolwg ONS 2017](#), 87% o oedolion yng Nghymru, yn ddiweddar, wedi defnyddio'r rhyngwrdd (hynny yw yn ystod y tri mis diwethaf). Er bod rhai pobl ar hyn o bryd heb fod ar-lein, a bod angen amlwg am ymagwedd wedi ei theilwra, mae yna gyfle gwirioneddol i ymgysylltu â phobl yn y dull sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw ac sy'n rhan o'u bywyd bob dydd, yn hytrach na bod yn dasg ychwanegol.

Mae "Sir Fynwy Agored" (<https://monmouthshire.madeopen.co.uk/>) yn enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut y gallai pobl gyfrannu tuag at wella'u hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, ofyn am farn y gymuned, cychwyn prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau. Byddai Matthew Gatehouse, sy'n gweithio gyda BGC Sir Fynwy, yn medru eich helpu i rannu eu gwybodaeth gyda chi ar sefydlu'r wefan hon.

Rydych hefyd wedi nodi poblogaeth gynyddol o bobl hŷn, gyda chynnydd tebygol yn nifer menywod hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain erbyn 2035. Gan fod unigrwydd wedi ei enwi fel mater yn eich asesiad llesiant, sut fedrech chi fynd i'r afael â hyn dros yr hirdymor yn y camau yr ydych yn eu cymryd i wella ymgysylltiad pobl ym mywyd eich cymuned? Sut fedrwch chi ddefnyddio adnodd cyfunol eich 'staff ar lawr gwlad' i'ch helpu i adnabod unigrwydd cymdeithasol? Mae [Ymchwil ar Heneiddio'n Dda yng Nghymru](#) wedi dangos bod unigrwydd ymhlith pobl hŷn yn gysylltiedig ag iechyd meddwl neu gorfforol gwael; sut fedrwch chi facsimeiddio manteision drwy gynyddu ymgysylltiad pobl hŷn yn eich ardal a thrwy hynny wella eu hiechyd? Mae gan Gyngor Cymuned Solfach enghraifft ddiddorol o'r modd y mae gwirfoddolwyr a phreswylwyr hŷn wedi elwa o gynllun i leihau arwahanrwydd a gwella llesiant (<http://solvacare.co.uk/>).> Efallai y buasech yn dymuno cysylltu â'r Comisiynydd Pobl Hŷn i drafod y syniadau hyn ymhellach.

Mae gen i ddiddordeb hefyd yn y modd yr ydych wedi ystyried integreiddio yn eich camau fel BGC i gwrdd â'r amcan hwn ar draws nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant eich sefydliad unigol chi. Tra'ch bod wedi nodi'n gywir yn eich camau drafft bod integreiddio cyfleoedd ymgysylltu'n effeithiol gan y sector cyhoeddus yn bwysig ar gyfer lleihau' blinder ymgynghori' a gwastraffu adnoddau, ni fyddai'r cam hwn ar ei ben ei hunan yn macsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Sut fedrech chi ddefnyddio'r ymarfer hwn i

archwilio ar y cyd y deallusrwydd cymunedol sydd gennych fel sefydliad i'ch galluogi i grynhoi tystiolaeth a gweithredu gyda'ch gilydd?

Wrth ystyried sut i ymdrin â'r cam hwn, efallai y byddwch yn dymuno dysgu o waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, a sefydlodd ganolbwynt ar-lein cydweithredol sef [Canolbwynt Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#) yn 2012 Mae'r Canolbwynt yn gwasanaethu fel 'siop-un-stop' ar gyfer gweithgaredd ymgysylltu rhwng partneriaid ac mae wedi lleihau ymgynghori 'seilos' yn yr ardal. Mae'r BGC yn parhau i wella hwn, felly gallai eu dysgu yn y gorffennol fod yn werthfawr i chi. Mae yna hefyd angen i ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan y trydydd sector a allai daflu goleuni ar bynciau nad ydym fyth yn meddwl gofyn amdanynt. Er enghraifft, [mewn arolwg WWF llynedd](#), dywedodd dau draean o'r sampl Cymreig, eu bod eisiau rhagor o'u hynni i fod yn adnewyddol. Os caiff y safbwyntiau hyn wrandawriad ac os gweithredir arnynt, rydym yn debygol o atal teimladau o ymddieithriad neu o deimlo'n ddibwys, yr ydych wedi ei adnabod fel mater drwy gydol eich asesiad llesiant.

Dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl fedrwn ni ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae ceisio gweld bywyd rhywun mewn dull mwy holistig, gan ffocysu ar eu cryfderau a helpu pobl i helpu eu hunain yn hollbwysig ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae'r astudiaethau achos a [gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn ôl 'Locality'](#), yn dangos costau ariannol a chymdeithasol sy'n deillio o beidio mabwysiadu'r ymagwedd ataliol hon.

Ar bob cyfle, dylid gofyn i bobl Bro Morgannwg, beth sy'n bwysig iddyn nhw. Er enghraifft, gan fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Bro Morgannwg a'u partneriaid yn y BGC ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn strategaeth dementia a strategaeth iechyd meddwl ymhlith oedolion hŷn, pa gyfleoedd sydd yna nid yn unig i ddeall eu 'hanghenion defnyddwyr-gwasanaethau', ond hefyd i fabwysiadu ymagwedd fwy cylchol tuag at ddeall yr ystod o bethau sy'n effeithio ar eu llesiant? Sut fedrai hyn newid y ffordd yr ydych yn cyd-gamu tuag at wella llesiant fel BGC?

O ran adeiladu gallu mewn cymunedau llai cyfoethog, yn ddiweddar mynychodd aelod o fy nhîm Fforwm Pobl Hŷn y Cyngor ac nid oeddwn yn synnu i glywed y fath ased yw'r grŵp hyn o bobl – â ganddynt gylchgrawn sy'n cael ei gyhoeddi ganddyn nhw eu hunain sydd hefyd yn hyrwyddo eu llwyddiannau. Buaswn yn cynghori'r BGC i fanteisio ar ymgyfraniad y rhwydweithiau hyn sy'n bodoli eisoes, adeiladu ar eu llwyddiannau ac annog pobl weithgar sydd eisoes yn gweithio yn y gymuned. O'r safbwynt hwn, dylech ystyried pa rôl a chwaraeir gan eich Cynghorau Cymuned a Thref i'ch helpu i wireddu'r amcan.

Efallai nad ydych yn gwybod pwy yw'r arweinyddion cymunedol â photensial mewn rhai ardaloedd, felly os yr ydych wedi ymrwymo i hyn, ail-gyfeiriwch eich adnoddau i wneud mwy o waith mewn cymunedau, i ddechrau dod i adnabod y lle fel y mae'r bobl sy'n byw yno yn ei adnabod. Heb amheuaeth bydd gwneud hyn yn eich helpu i ddeall sut y gellid mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ar sail lle, a rhoi i chi ddealltwriaeth o'r amgylchedd yn yr ardal honno hefyd. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymgyfrannu'n unig mewn rhywbeth sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt nhw, eu teulu neu'r man lle maent yn treulio eu hamser. Mae'r astudiaeth ['Lle Dwfn' yng Nghanolfan Adfywio Rhagoriaeth Cymru yn Nhredeg](#) yn rhoi tystiolaeth ar sut mae dealltwriaeth o le yn medru cael llawer o fanteision.



Mae yna gyfle gwirioneddol yn y fan hon i chi feddwl am sut yr ydych yn maxsimeiddio'ch cyfraniad i'r nodau llesiant, yn arbennig Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Sut fedr dulliau o ennyn ymgyfraniad pobl ac annog gwirfoddoli hyrwyddo dathlu diwylliant ym Mro Morgannwg, annog pobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg a galluogi cyfraniad mewn chwaraeon, diwylliant a gweithgareddau creadigol? Ar draws Cymru mae disgyblion sy'n teimlo 'u bod 'wedi cael gwrandawriad' yn fwy tebygol o ymddiddori mewn chwaraeon a mwynhau addysg gorfforol yn yr ysgol. Fel y cyfryw, mae yna fanteision mewn cydweithio gyda chyrrff cyhoeddus cenedlaethol sydd ynghlwm wrth y Ddeddf, a allai weithio gyda chi ar sut i sicrhau bod eich camau i gwrdd â'r amcan hwn yn maxsimeiddio cyfraniad i'r nodau. Mae tîm Comisiynydd yr Iaith Gymraeg hefyd yn ystyried y ffordd orau o helpu BGCau i ystyried y rôl y gallant chwarae yn nhwf yr iaith Gymraeg, fel yr amlinellwyd yn [Cymraeg 2050](#). Os gwelwch yn dda rhowch wybod i fy nhîm os hoffech gysylltu ag unigolion perthnasol yn y sefydliadau hyn.

Gallaf weld eich bod yn ymwybodol o'r Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol a buaswn yn cynghori pob un o'ch sefydliadau i ymrwmo i'r rhain. Gall [Cyfranogaeth Cymru](#) gynorthwyo eich swyddogion i ennill y sgiliau hanfodol ar gyfer ymgyfraniad effeithiol ac ystyrlon. Gallai [Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru](#) eich helpu i adnabod ac ennyn ymgysylltiad arweinyddion cymunedol; cysylltwch â'r Cyfarwyddwr, Mark John-Williams am ragor o gyngor.

Ni fyddwch yn synnu i nodi bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill hefyd yn ystyried pennu amcanion sy'n ymwneud ag ymgysylltu, datblygu/cynnal rhwydweithiau cymdeithasol cryf, meithrin teimlad o berthyn a llunio gwasanaethau. Yn arbennig, efallai eich bod yn dymuno rhannu syniadau â BGC Ceredigion; BGC Caerfyrddin, BGC Casnewydd a BGC Powys, sydd wedi cyflwyno amcanion drafft tebyg i mi.

[Mynd i'r afael ag amddifadedd a lleihau tlodi](#)

Fel y nodwyd gan eich asesiad llesiant, mae yna bocedi o amddifadedd yn eich ardal sy'n anghyson â chyfoeth cyfartalog preswylwyr. Wrth siarad â'ch tîm, gwnaethant nodi mai 'mynd i'r afael ag anghydraddoldeb' yw gweledigaeth hirdymor eich BGC ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol nas crybwyllir. Os mai dyma'r achos, buaswn yn awgrymu eich bod yn rhoi amser o'r neilltu yng nghyfarfod nesaf eich BGC i ystyried beth allai eich cyfraniad fod i wireddu Bro Morgannwg gyfartal erbyn 2050 a pha gamau tymor byr, canolig a hirdymor fydd yn eich tywys chi yno.

Er y bydd llawer o resymau dros yr amddifadedd a brofir mewn rhannau o'r sir a dim datrysiadau hawdd, mae yna gamau y gallech eu cymryd fel BGC i gryfhau cydnheredd yr ardaloedd hyn ac atal effeithiau andwyol tlodi. Yn gyntaf, buaswn yn eich cynghori i edrych ar yr effaith economaidd y gallwch ei gael fel darparwyr y sector cyhoeddus yn yr ardaloedd hyn ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol. Er enghraifft, sut fedr ymrwymiad cyfunol i gaffael cynaliadwy, lleol fod yn fanteisiol i'ch economi lleol? Pa gyfleoedd cyflogaeth fedrwch chi eu cynnig, megis cynlluniau prentisiaethau cydweithredol, i bobl leol sy'n byw ymhell o'r farchnad swyddi? Sut fedrwch chi annog swyddi yn yr economi sylfaenol, o gwmpas gofal lleol, diwydiannau manwerthu a bwyd? Amaeth yw conglaen y diwydiant cadwyn gyflenwi Gymreig gwerth £6.1 biliwn ac sy'n cyflogi dros 220,000 o

bobl, sy'n ei wneud y cyflogydd mwyaf yng Nghymru. O gadw mewn golwg dir amaethyddol cyfoethog y Fro, pa gyfleoedd sydd yna i dyfu arbenigedd yn yr economi gwyrdd?

Yn ail, ar gyfer y camau y gallech eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn, awgrymaf fod angen i chi gydweithio â Choleg Caerdydd a'r Fro, sefydliadau addysg uwch yn yr ardal a'r busnesau. Pa sgiliau a allai fod eu hangen ar ein myfyrwyr i'w gwneud yn gymwys ar gyfer y dyfodol? Mae'r [adroddiad Dyfodol Gwaith](#) yn awgrymu y bydd creadigrwydd, cysylltedd, cyfathrebu a datrys-problemau yn llawer pwysicach na gwybodaeth benodol, gyda mwy o waith sy'n seiliedig ar brosiectau yn y dyfodol – yn hytrach na chyflogaeth osodedig. Hefyd, mae'r adroddiad yn rhagweld y bydd 65 % o'r plant sydd yn awr yn cychwyn yr ysgol yn gwneud swyddi nad ydynt hyd yn oed yn bodoli ar hyn o bryd. Ac yn ôl [McKinsey](#), gallai technoleg awtomeiddio 45% o'r tasgau y mae pobl yn cael eu talu i'w gwneud ar hyn o bryd. Pa gyfrifoldebau cymdeithasol sydd wedi eu mabwysiadu gan y sector preifat yn yr ardal? A ellir cyfeirio'r rhain tuag at gymunedau amddifad? Sut mae busnesau'n dod at ei gilydd i sbarduno newid cadarnhaol, hirdymor?

Rwyf wedi siarad cyn hyn am y cyfle a gyflwynir gan Ddinas-Ranbarth Caerdydd. Buaswn yn awgrymu eich bod yn dylanwadu ar y negodiadau hyn gan gadw mewn golwg eich amcanion drafft ar gyfer BGC Bro Morgannwg. Mae Sefydliad Joseph Rowntree'n amcangyfrif bod tlodi'n costio £2.2 biliwn y flwyddyn i'r rhanbarth cyfan. Ychydig o effaith a gaiff cynyddu Cynnyrch Domestig Gros ar leihau anghydraddoldebau, ac mewn wyth o bob deg o ardaloedd Awdurdod Lleol yr ardal, mae tlodi plant yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Buaswn felly'n eich cynghori i annog nad yw gwerth o fewn y Ddinas-Ranbarth yn cael ei roi yn unig ar dwf economaidd ond ar ddatblygu patrymau cyflogaeth a gwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan fuddsoddi yn y cymunedau mwyaf amddifad i annog sgiliau mewn technoleg, creadigrwydd a datrys-problemau i dorri patrymau tlodi sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae defnyddio adnoddau mewn dull gwahanol ar gyfer gwrando mewn difrif ac ennyn ymgyfraniad pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwy amddifad yn y Fro yn bwysig ar gyfer ennill dealltwriaeth o'r modd y maent yn canfod asedau a diffygion eu cymuned. Mewn llawer o'r asesiadau llesiant, darllenaf mai anaml y mae cymunedau sy'n cael eu brandio fel rhai 'amddifad' neu rai 'mewn tlodi' gan ystadegau, yn diffinio'u hunain yn y modd hwnnw ac roedd llawer o bobl yn ymfalchïo yn eu hamgylchedd lleol naturiol, eu hadeiladau cymunedol a'r modd yr oedd pobl yn dod ymlaen gyda'i gilydd. Bydd adnabod yr asedau yn yr ardaloedd hyn ac ennyn ymgyfraniad pobl wrth adeiladu arnynt yn helpu i ddarganfod datrysiadau ar gyfer lleihau anghyfartaledd gyda'n gilydd.

Ar gyfer y fath fater cymhleth, mae integreiddio ar draws y saith nod llesiant yn arbennig o bwysig wrth i chi gymryd camau i gwrdd â'r amcan drafft hwn. Er enghraifft, mae ansawdd tai yn fater cyson sy'n codi o amddifadedd, sy'n effeithio ar iechyd, cydlynad cymdeithasol a chyllid personol. Fel y darganfu eich asesiad, mae pobl hyn yn fwy agored i gael eu niweidio gan dlodi tanwydd a'r peryglon iechyd sy'n gysylltiedig ag amodau oer a llaith; ac mae eich asesiad yn amlygu'r nifer uchel o bobl hyn sy'n byw ar eu pennau eu hunain mewn eiddo perchen-feddiannaeth. Mae ystadegau diweddar o Gynghrair Tlodi Tanwydd Cymru'n dangos bod 1 o bob 3 chartref yng Nghymru'n byw mewn tlodi tanwydd, gyda chost amcangyfrifedig o dderbyniadau i ysbytai sy'n gysylltiedig ag oerfel yn cyrraedd dros £100 miliwn ac yn achosi 475 o farwolaethau bob blwyddyn. Mae tlodi

tanwydd ar hyn o bryd yn achosi mwy o farwolaethau na rhai'n gysylltiedig ag alcoholiaeth yng Nghymru. Bydd cymryd camau i leddfu tloedi tanwydd a gwella ansawdd tai yn gyffredinol yn fanteisiol i'r sector cyhoeddus mewn mannau eraill. Felly, gallai cydweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a landlordiaid preifat i weithredu ar y modd y gellid gwneud tai presennol yn fwy effeithlon mewn ynni fod yn gam y gallai'r BGC fod yn awyddus i'w archwilio. Mae'r Safon Passivhaus yn un ffordd o adeiladu ac adfer cartrefi ar gyfer y dyfodol (www.passivhaus.org.uk).

Rwyf yn falch i weld yn eich pecyn gwybodaeth ar gyfer yr amcan hwn eich bod wedi edrych tu hwnt i'r agwedd economaidd o leihau anghydraddoldeb ac amddifadedd, drwy ystyried bod y rhai hynny sy'n byw mewn tloedi hefyd yn fwy agored i effeithiau amgylcheddol. Yma, mae'r amcan hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar eich amcan arall i wella'r amgylchedd. Fel y cyfryw, buasai gennyf ddiddordeb yn y modd y byddwch efallai'n ceisio llunio eich camau i gwrdd â'r amcan hwn ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.

Rydych wedi nodi bod allyriadau aer yn sgorio'n uwch mewn ardaloedd o amddifadedd yn eich sir. Fel y nodir gan eich asesiad, yn y cymunedau hyn, mae clefydau anadlol a salwch hirdymor hefyd yn uchel. Mae eich asesiad wedi dangos hefyd bod ansawdd tir yn wael yn y mwyafrif o'r ardaloedd hyn o amddifadedd; eu bod yn agos at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol a'u bod mewn perygl o lifogydd. Pa gamau fedrwyd chi eu cymryd i wydroi rhai o'r effeithiau hyn, neu atal cenedlaethau'r dyfodol rhag gorfod mynd i'r afael â sefyllfa sy'n gwaethygu? Rydych wedi nodi gweithredu drafft o dan yr amcan hwn i gynyddu mynediad i fannau agored gwyrdd; efallai bod yna gyfleoedd i agor tir cyhoeddus at y diben hwn? Roedd gennyf ddiddordeb hefyd i ddarllen bod y canopi coed yn isel ym Mro Morgannwg; pa gyfleoedd sydd ar gael i annog seilwaith gwyrdd ar draws yr ardal, gan ennyn ymgyfraniad cymunedau i fanteisio i raddau helaethach ar yr amgylchedd naturiol?

Yn [adroddiad diweddar Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Cymru](#) ar seilwaith gwyrdd, archwiliwyd y cysylltiadau rhwng seilwaith gwyrdd a thwf economaidd, gan bwysleisio ei fod yn denu buddsoddi mewnol, yn creu cyfleoedd twristiaeth ac yn cynyddu gwariant twristiaid. Gwnaeth Llwybr Arfordirol Cymru, er enghraifft, ddenu bron i dair miliwn o ymwelwyr ac roedd yn werth, amcangyfrifwyd, £ 16 miliwn i economi Cymru rhwng 2011 a 2012. Hefyd, mae'r manteision iechyd o fyw gyda golygfa o fannau agored gwyrdd yn werth £300 y person y flwyddyn.

Eto, mae amcanion drafft ar gyfer lleihau anghydraddoldeb yn gyffredin ar draws Cymru, yn cynnwys BGC Caerffili, BGC Sir Fynwy, BGC Powys a'ch BGC cyfagos, Pen-y-Bont ar Ogwr.

[***Rhoi i blant y cychwyn gorau mewn bywyd.***](#)

Ar gyfer pob un o'ch amcanion drafft a'r camau yr ydych yn ceisio eu cymryd, buaswn yn eich cynghori i fod yn glir am yr hyn a olygir ganddynt i Fro Morgannwg yn eich cynllunio llesiant. Pa dystiolaeth leol a ddefnyddiwyd gennych (neu y byddwch yn ei defnyddio) i ddeall meysydd penodol ymyriadau ataliol llwyddiannus yn y Fro? Pa wasanaethau cyhoeddus fydd yn cael eu heffeithio os byddwch yn ailgyfeirio buddsoddiad i 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn? Sut y gallai mabwysiadu ymagwedd wybodus tuag at brofiadau niweidiol yn ystod plentynod effeithio mewn gwirionedd ar eich sefydliadau?

Mae atal yn amlwg yn ganolog i'r amcan drafft hwn ac mae hyn yn cychwyn gyda dealltwriaeth eich sefydliadau o effeithiau hirdymor cael y cychwyn gwaethaf mewn bywyd. Mae costau hyn yn enfawr, i fywyd yr unigolyn ac i wasanaethau cyhoeddus. Amcangyfrifir y bydd gwasanaethau ymyrraeth hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £ 17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr (£6 biliwn ar amddiffyn a diogelu plant, £5.2 biliwn ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7biliwn ar anweithgarwch economaidd pobl ifanc, £680 miliwn ar absenoldebau a gwaharddiadau o'r ysgol, £610miliwn ar anafiadau i blant a phroblemau iechyd meddwl, a £450 miliwn ar gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc.)

Gwelir beichiogrwydd a blynyddoedd cynnar bywyd yn aml fel 'mater iechyd' ond buaswn yn eich cynghori i gymryd camau ar unwaith tuag integreiddio gwasanaethau yn well, cyd-leoli timau, crynhoi adnoddau a gweithio mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i'r gymuned honno. Fel yr ydych eisoed wedi nodi, buaswn yn eich cynghori i ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y 1000 diwrnod cyntaf o fywyd plentyn a'r manteision y gellid eu sylweddoli drwy fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar i benderfynu pa gamau y gallwch eu cymryd yn awr i wella llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu Canolfan Iechyd a Chynaliadwyedd i gyd-drefnu eu gwaith hwy eu hunain o amgylch y Ddeddf a, thrwy eich cynrychiolydd BGC, gallai cysylltu â'r tîm cenedlaethol am fwy o dystiolaeth a gywbodaeth fod yn fanteisiol i chi.

Fel gwasanaethau cyhoeddus rydym yn aml yn trin symptomau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn hytrach na'r achosion sydd wrth ei wraidd. Felly buaswn awgrymu eich bod yn edrych ar gylch bywyd cyfan eich poblogaeth wrth gwrdd â'r amcan drafft hwn, gan fod plant yn rhan o deuluoedd, sy'n rhan o gymunedau. Gallai deall profiadau pobl sydd wedi profi trawma yn eu bywydau, ac ennyn ymgyfraniad plant a'u teuluoedd wrth lunio gwasanaethau, eich helpu fel BGC i sefydlu'r hyn sydd wrth wraidd y mater a gweithredu drwy ymagwedd seiliedig ar le. Er enghraifft, mae gweithrediad drafft o dan eich amcan i fynd i'r afael ag amddifadedd yn ymwneud â rhaglen beilot ataliad ar gyfer cwrdd ag anghenion y rhai ag anghenion cymhleth, megis iechyd meddwl, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau. Buaswn yn ceisio integreiddio'r gwaith hwn gyda'r amcan hwn a gan ailadrodd fy nghyngor cynharach, ceisio deall pobl mewn dull holistig – yn hytrach nag fel 'defnyddiwr gwasanaeth sy'n camddefnyddio sylweddau', neu 'ddioddefwr cam-drin domestig'.

Rwyf wedi ymddiddori mewn gwaith a wnaed gan sefydliad yn Newcastle. Sefydliad ddim-am-elw yw Social Finance sy'n arbenigo mewn dadansoddiad trwyadl ac sy'n edrych ar elw cymdeithasol buddsoddiad; cawsant eu comisiynu gan Gyngor Dinas Newcastle i dwrio'n ddyfnach i'w helpu i fynd i'r afael â'r broblem NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Tra bo ffocws traddodiadol yn edrych ar gyraeddiadau TGAU, yr hyn a ddengys y dadansoddiad hwn yw nad cyflawniadau academaidd mewn gwirionedd yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol o bell ffordd, gan ddangos yn hytrach bod 67% o rai rhwng 17-19 mlwydd oed oedd yn NEET wedi dod o'r 25% o rai 17 - 19 mlwydd oed, a oedd, yn ystod eu plentyndod, wedi cael cysylltiad nifer o weithiau â'r gwasanaethau cyhoeddus. Dangosodd yr ymchwil bod y rhai oedd wedi cael cyn lleied â chwe rhyng-gysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus wedi treulio tair gwaith gymaint o amser allan o addysg neu hyfforddiant.

Rwyf hefyd yn eich cynghori i edrych ar adroddiad y [New Economics Foundation](#) ar fuddsoddi mewn plant, sy'n amlygu'r angen i fynd i'r afael â llesiant materol a hefyd amgylchiadau allanol – megis tai, tlodi, addysg – yn

ogystal â llesiant seicolegol ac adnoddau mewnol. Mae'r ymagwedd dau-drac hwn yn cwmpasu'r plentyn, eu teulu a'u cymuned.

Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd Plant, a byddai ei swyddfa'n hapus i roi cyngor ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a mabwysiadu ymagwedd wedi ei chanoli ar y plentyn. Hefyd, yn ddiweddar, gweithiodd Alyson Francis, Cyfarwyddwr Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, gyda fy swyddfa i ysgrifennu atoch i amlinellu'r gwaith a wneir gan y ganolfan a chynnig cymorth i'r BGCau i droi gwybodaeth a pholisi'n arfer. Gallai'r Ganolfan hefyd weithredu fel man canolog lle gall BGCau rannu arfer, gan fod bron bob un o'r BGCau yng Nghymru wedi trafod y blynyddoedd cynnar, plant a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod yn eu hamcanion a'u camau drafft. Rydym yn gweithio gyda'r [Gyfnewidfa Arfer Da i redeg gweminar ar ddealltwriaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod ar y 7fed Tachwedd](#), a allai fod o fudd i chi.

Fel y dywedodd Alyson, nid rhywbeth arall i'w wneud yw talu sylw i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, ond cyfle i ailystyried sut yr ydym yn darparu gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gall y bydd BGC yn dymuno ystyried:

- Sut yr ydym yn atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod? Ydyn ni'n gwneud y gorau o'r cyfleoedd i adnabod risg; ydyn ni'n defnyddio'n gwybodaeth am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod i drwytho asesiadau risg; ydyn ni'n rhannu'n effeithiol ddata i weld y risgiau posibl? Neu a fedrwn ni gynyddu ffactorau amddiffynnol (perthynas y gellid ymddiried ynddi/perthynas sefydlog rhwng oedolyn a phlentyn, teimlo'n gysylltiedig, teimlo'r gallu i oresgyn caledi, deall emosiynau a sut i fynd i'r afael â nhw?).
- Sut rydyn ni'n atal effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod ar unigolyn rhag gwaethygu? Er enghraifft, oes yna gyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar, i gynorthwyo unigolion cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng, neu drothwy ar gyfer ymyrraeth statudol? Oes gennym ni systemau i gysylltu â'r rhai hynny ag angen cymorth cynnar, ac a fedrwn osgoi'r system aml-asiantaeth er mwyn atal nifer o bobl broffesiynol rhag gweithio gyda'r un unigolyn?
- Sut rydyn ni'n atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod rhag digwydd eto? Er enghraifft, sut rydyn ni'n chwalu cylchoedd sy'n pontio cenedlaethau ac adeiladu cydnerthedd a gweithio gyda phobl a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod neu sydd wedi dioddef trawma, mewn dull gwybodus, arbenigol?

[Amddiffyn, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd.](#)

Gallaf ddeall pam, fel ardal â thir amaethyddol neilltuol, arfordir a thraethau hyfryd, a mynediad i fannau gwyrdd agored, yr ydych, fel BGC, wedi dewis hwn fel amcan drafft. Mae'n bwysig hefyd eich bod, wrth ystyried eich rolau chi eich hunain yn y gwaith o amddiffyn yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn gweld yr angen i fod yn glir ar y camau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn. Yr ydych, yn gywir, wedi adnabod yn eich asesiad bod yr amgylchedd yn ased mawr i bobl Bro Morgannwg ond, mae effeithiau hirdymor digwyddiadau tywydd eithafol drwy'r newidiadau yn ein hinsawdd yn cyflwyno risgiau arbennig i'ch ardal. Mae'r saith nod

llesiant cenedlaethol yn rhoi fframwaith i chi ystyried pa weithredoedd y gallech ymgymryd â nhw i leddfu, rheoli neu ddatrys y risgiau hyn dros y tymor byr, canolig a hirdymor.

Er enghraifft, mae llawer o'r cymunedau tlotaf yn eich sir mewn mwy o berygl o lifogydd ac erydu. Mae eich asesiad wedi adnabod yn gywir bod lefelau môr sy'n codi yn rhoi llawer o ardaloedd ym Mro Morgannwg mewn perygl mawr. [Mae'r niwed blynyddol a ddisgwyllir ar hyn o bryd i eiddo preswyl yng Nghymru yn £22 miliwn.](#) O'i ystyried o ochr arall y geiniog, gallai tywydd eithafol hefyd achosi sychder yn yr haf, sy'n golygu prinder dŵr, bioamrywiaeth sy'n dirywio ac effeithiau ar amaeth – un o bileri llesiant economaidd yn eich ardal. Sut ydych chi'n defnyddio senarios hirdymor i fodelu'r hyn a allai ddigwydd i'r cymunedau hyn petai eu strydoedd, trefi a pharciau ddim yno mwyach, neu petaent yn ymdrechu yn wyneb llai o adnoddau naturiol. Sut fedrech chi weithredu yn awr i gyfrannu tuag at atal y digwyddiadau hyn? Un enghraifft o fuddsoddi mewn amddiffynfeydd llifogydd yw'r cynllun [Ardal Perygl Llifogydd Cwm Tawe Isaf](#), prosiect £6.7miliwn sy'n rhoi amddiffynfa i 284 o fusnesau a safleoedd diwydiannol ac sy'n cyflogi dros 10,000 o bobl.

Mae gennych hefyd faterion yn ymwneud ag allyriadau CO2 ac ansawdd aer ar draws y sir. Mae ansawdd aer hefyd yn fater arwyddocaol i rannau o'ch sir, sy'n effeithio'n anghymharol ar gymunedau o amddifadedd. Roeddwn yn drist i ddarllen bod gan y Fro un o'r lefelau uchaf o lygredd aer a wnaed gan ddyn yng Nghymru a'i fod yn uwch na'r cyfartaleddau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac amcangyfrifir bod hyn yn cyfrannu at oddeutu 50 o farwolaethau bob bawddyn yn y sir! Gan gydnabod nad yw hyn yn uniongyrchol o fewn eich rheolaeth, gyda Gorsaf Bŵer Aberddawan yn sicr o fod yn effeithio ar ansawdd aer, mae angen i'r BGC ddarganfod dulliau o gydweithio gyda diwydiant trwm yn awr ac yn y dyfodol i leihau eu hallyriadau niweidiol. Yn Sweden, lle mae bron i 100% o wastraff tai'n cael ei ailgylchu, mae hanner y gwastraff hwn yn cael ei losgi i gynhyrchu ynni mewn safleoedd llosgi. Mae'r defnydd priodol a wneir o hidlwyr ar y safleoedd hyn wedi arwain at ddim ond 0.01% o allyriadau mygdarth gwenwynig.

Mae gwella ansawdd aer a chynnal eich amgylchedd naturiol hefyd yn gofyn am ymgyfraniad preswylwyr. Sut y gallwch wrando'n well ar yr hyn sy'n eu symbylu i ddefnyddio'u ceir, yn hytrach na theithio llesol? Sut y gallwch gysylltu eich amcan drafft cyntaf â'r cyfraniad bach y gallai eu hymgyfraniad hwy ei wneud i leihau effaith allyriadau C2 a gwella'r amgylchedd? [Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lefelau](#) allyriadau carbon wedi eu hisrannu i lefelau Awdurdod Lleol.

Nododd eich asesiad bod angen mwy o ymchwiliad i'r defnydd o dir amaethyddol yn yr ardal a'i effaith ar agweddau eraill o lesiant. Gallai cymryd cam cyfunol i gydweithio â thir feddiannwr ac, yn union fel busnes preifat, archwilio sut y maent yn ymdrin â'u busnes mewn dull cyfrifol, roi i chi weithrediadau gwerthfawr i fedru cael effaith cadarnhaol ar yr amgylchedd. Fel yr unig sir yng Nghymru â maes awyr rhyngwladol, efallai y byddwch hefyd yn dymuno cydweithio fel BGC a Llywodraeth Cymru ar effaith amgylcheddol y gweithgareddau economaidd a wneir yn y dyfodol os caiff y parth menter ei ehangu.

Ar nodyn ehangach, buaswn yn eich cyngori i ystyried sut yr ydych yn annog twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru. Mae asedau amgylcheddol eich ardal yn rhyfeddol, felly sut fedrwyd chi gysylltu'r traethau, y parciau, safleoedd o ddiddordeb arbennig ac o arwyddocâd hanesyddol â chyfluoedd ar gyfer teithio llesol, trafniadaeth gyhoeddus ac, ar yr un pryd, bod o fudd i fusnes lleol? Mae hyn yn golygu ffocws seiliedig ar le wrth gynllunio, a

ffocws ehangach ar lesiant amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal – yn hytrach na chynnydd economaidd pur. Fel y cyfryw, mae'n galonogol i weld mai un o'r gweithgareddau drafft a nodir gennych yw lobiö darparwyr trafndiaeth gyhoeddus.

Buaswn yn eich cyngori i gydweithio o ddifrif a dylanwadu ar eich gilydd fel arweinyddion y sector cyhoeddus yn y camau yr ydych yn eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn. Beth fedrwch chi ei wneud yn awr, fel Prif Weithredwr, Cadeirydd neu Arweinydd, i leddfu effeithiau colli ein hamgylchedd a bod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang? Er mai cymharol isel yw maint yr allyriadau y mae'r sector cyhoeddus yn gyfrifol amdano, rydych mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu ar allyriadau yn llawer ehangach mewn meysydd megis trafndiaeth, ynni, y defnydd o dir a chaffael. Yn ddiweddar ymrwymodd Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030 ac maent wedi cyhoeddi [Galwad am Dystiolaeth](#) i archwilio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer gwireddu'r uchelgais hwn a'r gweithredu strategol priodol sy'n ofynnol. Buaswn yn eich annog i ystyried a chyfrannu cyn y dyddiad cau, sef 13eg Medi.

Mae'r ymrwymiad hwn yn cydnabod gwaith yr ymgymerwyd ag ef gan Gyfoeth Naturiol Cymru drwy ei Brosiect Carbon Positif. Drwy amcangyfrif effaith carbon net y sefydliad, darganfu bod dros 80% o'u hallyriadau yn anuniongyrchol (h.y. ddim yn deillio o'r defnydd o ynni gan ei ystâd na'i fflyd) gyda 55% o allyriadau o gaffael nwyddau a gwasanaethau yn unig. Fel rhan o'r Prosiect, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi dewisiadau ymarferol ar gyfer lleihau allyriadau ac amddiffyn a gwella stociau carbon. Er enghraifft, darganfu y gallai gyflawni i fyny at 27% o arbedion mewn allyriadau o'i fflyd o gerbydau drwy fabwysiadu dewisiadau cludiant allyriadau isel.

Byddaf yn cynnal digwyddiad yn Nhachwedd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i: archwilio sut y gall gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ennyn ymgyfraniad pobl wrth gydweithio ac integreiddio'u gwaith, i roi mwy o sylw i oblygiadau carbon eu gweithgareddau yn yr hirdymor, a helpu i atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd rhag dod hyd yn oed yn waeth. Mae yna enghraifft dda o Abertawe, lle cychwynnodd eu prosiect panelau solar oedd yn eiddo i'r gymuned o bwynt oedd yn ystyried sut yr ydym yn adeiladau cyfalaf/asedau cymdeithasol mewn dull cynaliadwy drwy ddefnyddio ymagwedd seiliedig ar asedau.

Gyda'ch gilydd, mae gennych hefyd lawer iawn o ystâd y sector cyhoeddus a'r pŵer i benderfynu sut y caiff adeiladau cyhoeddus eu hadeiladu a'u hailwampio. Byddwch ar eich ennill fel BGC drwy fedru rhoi ystyriaeth i ba mor 'wyrdd' yw'r adeiladau hyn, yn nhermau effeithlonrwydd ynni ac adeiladu cynaliadwy. Mae'r adroddiad [Wildlife Trust in Wales report into green infrastructure](#) yn amlinelli sut mae seilwaith gwyrdd yn darparu ystod eang o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol profedig, pendant a chost-effeithiol.

Gobeithiaf eich bod o'r farn fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud ymlaen i gyhoeddi eich cynllun llesiant ar gyfer ymgynghori ffurfiol. Os gwelwch yn dda cysylltwch â fy nhîm os yr ydych angen manylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffordd orau o gynghori, cynorthwyo a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum dull o weithio a maccsimeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly buaswn yn croesawu eich



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

adborth chi, eich swyddogion cynorthwyol a Phwyllgor Craffu BGC Bro Morgannwg ar sut yr wyf wedi dewis mynd ati i ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor yr wyf wedi ei roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft ac os gwelwch yn dda cadwch mewn cysylltiad â mi a fy nhîm.

Dymuniadau gorau,

Sophie Howe



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales